

# Creu Cynllun ar gyfer Fy Nyfodol

Os oes gennych ddatganiad o anghenion addysgol arbennig (AAA), dyma beth ddylai ddigwydd i'ch helpu i gynllunio ar gyfer eich dyfodol:

## Blwyddyn 9

Bydd eich ysgol yn siarad â chi am yr hyn yr hoffech ei wneud pan fyddwch yn mynd yn h n ac yn gadael yr ysgol. Byddant yn siarad am y dewisiadau sydd gennych.

Yna, byddwch yn cwrdd â phobl eraill sy'n eich cefnogi, megis gweithiwr cymdeithasol, athro neu weithiwr gofal iechyd, a gyda'ch gilydd byddwch yn llunio cynllun ar gyfer eich dyfodol. Gallwch gael cymorth gan rywun cyn y cyfarfod i'ch helpu i baratoi eich meddyliau a gall eich ysgol helpu gyda hyn.

Bydd un o'r bobl yn y cyfarfod yn dod yn 'weithiwr allweddol' i chi. Bydd y person hwn yn sicrhau bod eich cynllun yn rhedeg yn esmwyth ac yn helpu os oes unrhyw broblemau gyda'r cynllun.

Rhaid i'r cynllun fydd pawb yn ei greu yn y cyfarfod ymwneud â'r hyn yr hoffech ei wneud, felly bydd yn bwysig dweud wrth bawb beth yr hoffech ddigwydd yn y dyfodol.

Dylai pawb sy'n eich cefnogi gael copi o'ch cynllun er mwyn cael gwybod beth i'w wneud i'ch helpu i gyrraedd lle'r ydych am fod.

## Blwyddyn 10

Cewch gyfarfod arall i weld sut mae'r cynllun yn mynd rhagddo.

Yn ddibynol ar yr hyn yr ydych am ei wneud yn y dyfodol, efallai y bydd pobl newydd yn dod i'r cyfarfod i weld sut y gallant eich cefnogi.

Nawr yw'r amser i ddechrau meddwl a ydych chi am adael yr ysgol yn 16 neu'n 19 oed.



## Blwyddyn 11

Gallwch gwblhau profiad gwaith, mewn rhywbeth sydd o ddi-ddordeb i chi, i weld sut beth yw mynd i'r gwaith.

Byddwch yn cwrdd â phobl fydd yn eich cefnogi i weld sut mae eich cynllun yn mynd ac a oes angen newid unrhyw beth. Gall pobl newydd ddod i'r cyfarfod, fel gweithiwr cymdeithasol i oedolion, gweithiwr gwasanaeth iechyd i oedolion neu rywun o'r coleg lleol y gallech fod eisiau ei fynychu.

Gallwch gael gwybodaeth am bethau fel taliadau uniongyrchol ac annibyniaeth.

**Ar ddiwedd blwyddyn 11 efallai y byddwch yn dymuno:**

**Aros yn yr ysgol, mynd i'r coleg, cael swydd, neu gael hyfforddiant.**

## Blwyddyn 12

Gallech wneud rhagor o brofiad gwaith.

Byddwch yn cwrdd â'r bobl fydd yn eich cefnogi eto, i weld sut mae eich cynllun ar gyfer eich dyfodol yn mynd.

Os oes angen gweithiwr cymdeithasol oedolion arnoch, efallai y byddant yn cymryd rhan bryd hynny, i'ch cefnogi i gynllunio ar gyfer eich dyfodol.

Gallech ddechrau ymweld â'r lle y byddwch yn mynd iddo nesaf.

Gallech wneud cais am swyddi, hyfforddiant neu swyddi gwirfoddol.

## Blynyddoedd 13-14

Efallai y byddwch yn gwneud mwy o brofiad gwaith neu gallech ymgeisio am swyddi, hyfforddiant neu swyddi gwirfoddol.

Byddwch yn cwrdd â'r bobl fydd yn eich cefnogi eto, i weld sut mae eich cynllun yn mynd rhagddo.

Gallech ddechrau ymweld â'r lle y byddwch yn mynd iddo nesaf a chwrrd â phobl a fydd yn eich cefnogi yno.

**Gallwch adael yr ysgol ym blwyddyn 13 neu 14 a mynd i'ch lle newydd.**

Dylai pawb sy'n eich cefnogi wneud yn siŵr bod gwybodaeth amdanoch chi wedi'i rhannu â'r lle newydd y byddwch yn mynd iddo pan fyddwch yn gadael yr ysgol.

Bydd eich lle newydd yn defnyddio'r holl wybodaeth i sicrhau eich bod yn cael y cymorth cywir pan fyddwch yn cyrraedd yno.

Dylai pawb sy'n eich cefnogi gael copi o'ch cynllun er mwyn cael gwybod beth i'w wneud i'ch helpu i gyrraedd lle'r ydych am fod.

